



Taflen Wybodaeth ar gyfer Claf a allai fod yn Feichiog sy'n cael Radiograffeg Ddeintyddol

Cynlluniwyd y daflen wybodaeth hon i roi gwybodaeth i chi am gael radiograffau deintyddol yn ystod beichiogrwydd.

Mae'r dosau sy'n deillio o radiograffeg ddeintyddol yn hynod o isel ac yn cyfateb i ddyddiau neu oriau o ymbelydredd cefndir naturiol (ymbelydredd na ellir ei osgoi y mae pawb yn agored iddo fel ymbelydredd cosmig). Mae'r archwiliad pelydr-X yn cael ei 'optimeiddio' i leihau'r dosau ymbelydredd cymaint â phosibl. Mae'r cyswllt yn cael ei optimeiddio trwy ddefnyddio offer modern a thrwy ddefnyddio technegau modern.

Yn ogystal, mae'r pelydr-X mewn radiograffeg ddeintyddol yn cael ei anelu at y genau. Nid yw'r abdomen yn y pelydr felly mae faint o ymbelydredd sy'n cael ei wasgaru tuag at yr abdomen mor isel fel bod y risg i faban heb ei eni yn cael ei ystyried yn ddibwys. Am y rheswm hwn, nid oes angen gofyn i gleifion fel mater o drefn a ydynt yn feichiog cyn radiograffeg ddeintyddol.

Beth fydd yn digwydd pan dynnir y radiograff (llun pelydr-X)

- Pan fyddwch yn cael eich gweld yn yr Adran Radioleg Ddeintyddol byddwch naill ai'n cael eich gweld gan aelod cymwys o staff neu gan fyfyrwr dan oruchwyliaeth uniongyrchol aelod cymwysedig o staff. Bydd y driniaeth yn cael ei hegluro i chi.
- Mae'r offer a ddefnyddir yn fodern a dewisir y cyswllt radiograffig isaf i gadw'r risg ymbelydredd (a'r risg) mor isel â phosibl.
- Gan fod y risg i'r baban heb ei eni mor isel, ni ddefnyddir ffedogau plwm fel mater o drefn wrth gynnal radiograffeg ddeintyddol.
- Unwaith y bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau, caiff y delweddau eu storio ar system radioleg yr ysbyty a gall eich deintydd eu gweld yn y clinig. Bydd y deintydd yn trafod y canlyniadau gyda chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gofynnwch i'ch deintydd neu i un o'r staff yn yr Adran Radioleg Ddeintyddol.

INSERT QR code

Awdur	Perchennog	Adolygu	Dyddiad gweithredol	Dyddiad Adolygu Disgwyliedig	Tudalen
ND	Cyfarwyddiaeth Ddeintyddol	1	18/02/25	18/02/27	Tudalen 1 o 1
Nid yw'r ddogfen hon yn cael ei rheoli ar ôl ei hargraffu neu ei lawrlwytho					